

Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



TREHARNE

Y Barri



CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

I ystad Treharne

Mae Treharne yn ardal fach yn y Barri wedi'i hamgylchynu gan ardaloedd cyfagos Gibbonsdown a Thregatwg, sydd â mwy o amwynderau a gwasanaethau lleol hygyrch. Mae gan yr ardal gysylltiadau bws da, a'r orsaf reilffordd agosaf yw Gorsaf Reilffordd Tregatwg.

Mae grŵp preswylwyr bach yn gweithredu mewn cydweithrediad â'r grŵp cyfagos - Coldbrook a gafodd ei ailenwi'n "Tŷ Cadog".

Yn ddiweddar, bu i grŵp lleol, Gibby Green Fingers, gymryd drosodd yr ardd gymunedol sydd oddi ar Ffordd Dyfnallt, er mwyn cynnal a chadw'r tir ac annog defnydd cymunedol o'r ardd, ac mae'n datblygu'n dda iawn. Mae gan Treharne hefyd lain o randiroedd gerllaw'r gerddi cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd.

Mae Treharne yn gartref i hostel Tŷ lolo sy'n cefnogi'r gymuned gyda gwasanaethau hygyrch fel gwasanaeth galw heibio'r ganolfan Cyngor ar Bopeth. Mae Parc lolo yn eistedd gyferbyn â'r hostel.

Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 - Mae 1,738 o bobl yn byw yn ardal Treharne.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu i Ddinas Powys yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub i Dreharne yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae 180 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn ardal Treharne. Mae 107 o dai, 46 o fflatiau, 8 fflat i bobl hŷn, ac 19 byngalo i bobl hŷn. Hefyd ceir 6 garej. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1945 a 1964.



Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

Beth yw ei nodau?



Mae Cynllun Cymdogaeth Treharne yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystâd. Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystâd, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

<p>Diogelwch cymunedol</p>	<p>Roedd 52% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthymdeithasol, sydd ychydig yn is na chyfartaledd y Fro o 58%.</p> <p>Mae cymdogion swnllud yn bryder i rai pobl gyda 43% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, o'i gymharu â chyfartaledd y Fro o 35%.</p> <p>Roedd defnyddio cyffuriau hefyd yn cael ei ystyried yn broblem i 40% o breswylwyr sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Fro o 26%.</p> <p>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 67% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal.</p> <p>"Mae'n ardal dawel iawn"</p>
<p>Cyswllt â chwmeriaid</p>	<p>Dywedodd 88% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a'u bod yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol.</p> <p>Roedd 73% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n uwch na chyfartaledd y Fro o 65%.</p> <p>Nododd 40% o denantiaid eu bod yn adnabod Tim Rheoli Cymdogaeth yr ardal.</p>
<p>Galw am gartrefi</p>	<p>Mae galw mawr am gartrefi yn yr ardal gyda chyfartaledd o 57 ymgeisydd yn cynnig am bob eiddo a fydd ar gael i'w ailosod.</p> <p>"Cymdogion cyfeillgar"</p>
<p>Mynediad at wasanaethau</p>	<p>Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd yn hawdd i ganol tref Y Barri neu ymweld ag archfarchnadoedd.</p> <p>Mae Treharne yn ardal Dechrau'n Deg sy'n golygu bod ystod o wasanaethau ychwanegol ar gyfer plant a theluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys meithrinfeydd, grwpiau rhieni a phlant bach, galw heibio ac ati. Mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg o adeiladau cymunedol ar yr ystâd.</p>
<p>Ôl-ddyledion rhent</p>	<p>Dywed 76% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. Mae 33% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%; fodd bynnag, mae cyfran uchel o denantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu costau tai.</p>
<p>Atgyweirio</p>	<p>Roedd 69% o denantiaid yr ystâd yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 71% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.</p> <p>Yn ystod arolwg diweddar o denantiaid, nodwyd bod y gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw yn faes yr hoffai preswylwyr ein gweld yn ei ddatblygu fel blaenoriaeth.</p>
<p>Cyflogaeth</p>	<p>Mae gan y gymdogaeth lefelau isel o gyflogaeth o gymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri, gyda 2% o bobl o oedran gweithio yn hawlio JSA o gymharu ag 1% mewn manau eraill yn y Fro. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael anhawster cyrchu'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt yn gymwys iawn ar gyfer y swyddi sydd ar gael.</p>
<p>Incwm yr aelwyd</p>	<p>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Cadarnhaodd 47% o denantiaid yr ardal fod ganddynt rywaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt.</p>

Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

Trosiant eiddo	Daeth 9 eiddo yn wag y llynedd yn yr ardal (5% o stoc da'r ardal)
Tenantiad gweithgar	Mae Bwrdd Preswylwyr, Tŷ Cadog, sy'n dwyn ynghyd denantiad o ardaloedd Treharne a Coldbrook yn y Barri. Mae gan y grŵp nifer isel o denantiad yn mynychu ac mae ganddo ddi-ddordeb mewn denu aelodau newydd i gymryd rhan mewn projectau cymunedol. Yn ogystal â'r Bwrdd Preswylwyr, mae nifer o grwpiau anffurfiol gan gynnwys grŵp garddio Gibby Green Fingers sy'n gweithredu yn Nhreharne ac ar hyn o bryd yn rhedeg Gardd Gymunedol Tŷ Iolo.
Trosedd a niwsans	Mae cyfraddau troseddu uwch na'r cyfartaledd yn yr ardal gyda mwy o droseddu treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u cofnodi nag mewn ardaloedd eraill. Y prif droseddu yr adroddir amdanynt i'r Heddlu (fesul 100 o breswylwyr) yw: Byrgleriaeth 1, Trosedd Treisgar 2.3, Dwyn 0.4, Niwed Troseddol 1.3, YGG 3.6, ac mae pob un yn uwch na chyfartaledd y Fro.
Iechyd a llesiant	Mae iechyd 27% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro. Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod mwy o bobl na'r arferol gyda phroblemau symudedd o un math neu'i gilydd, o'u bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi, ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig.
Pobl ifanc	Mae cyfran y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn debyg i gyfartaledd y Fro a Chymru, sef 19%. Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer pobl ifanc trwy glybiau ieuencid a grwpiau cymdeithasol.
Addysg	Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn is nag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch yn yr ardal na chyfartaledd y Fro mewn ysgolion cynradd (8%) ac uwchradd (11%) o'i gymharu â chyfartaledd y Fro o 6% ac 8%.
Mannau agored	Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio.
Graddfeydd yr ystâd	Graddiad cyffredinol yr ystâd yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ystâd.



Gwybodaeth leol:

Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

Barn/sylwadau preswylwyr	
Mae rhai problemau niwsans cymdogion yn y gymdogaeth; yn bennaf o ran sŵn ac ymddygiad anystyriol. Fodd bynnag, bu rhai digwyddiadau mwy difrifol o aflonyddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â chyffuriau mewn rhai ardaloedd penodol o'r gymdogaeth a digwyddiadau o fyrgleriaeth bachu cyfle yn ystod misoedd yr haf.	Mae amllder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo, fodd bynnag mae problemau gosod fflatiau mewn rhai blociau.
Mae ymddangosiad y gymdogaeth yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd; fodd bynnag, mae problem sylweddol gyda thipio anghyfreithlon yn gyffredinol. Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae yna ddarnau o dir a ddefnyddir y gellid eu troi at well defnydd.	Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth ger y fflatiau yn bennaf oherwydd y diffyg lle.
Mae hefyd dagfeydd pan mae gemau pêl-droed yn cael eu chwarae.	Mae hefyd rai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.
Mae pcedi o eiddo yn y gymdogaeth yn adrodd am broblemau gyda lleithder. Mae hefyd rai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.	Mae hefyd rai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.
Mae'r tîm cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr yn rheolaidd ond ar hyn o bryd nid ydynt yn gweithio gyda llawer o wahanol fforymau preswylwyr neu grwpiau ymgynghori. Teimlir bod diffyg cyfleoedd i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan.	

Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrandao ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Sicrhau safon uchel o ansawdd cartrefi yn gyffredinol
- Sicrhau bod materion atgyweirio a chynnal a chadw yn cael eu datrys yn amserol

Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i safon uchel
- Adeiladu cysylltiadau cymunedol a chymdogion cryf

Camau Gweithredu

Beth?	Pam?	Pryd?
Materion amgylcheddol		
Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth.	Gwella ymddangosiad y gymdogaeth.	O fewn 12 mis
Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystâd i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensiô ayb.	Gwella diogelwch cymunedol.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned lleol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol. Lleihau'r achosion o dafu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin.	O fewn 6 mis
Gweithio gydag ysgolion a grwpiau ieuencid lleol i greu ymgyrch i ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal.	Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Gwella ymgysylltiad cymunedol.	O fewn 12 mis
Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir eu datblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol.	Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.	O fewn 12 mis
Gweithio mewn partneriaeth â Phriffyrdd, gwaith wedi'i gynllunio a phreswylwyr sydd ag ystod o anableddau i edrych ar sut y gall gwelliannau cael eu gwneud i lwybrau ac ardaloedd allanol eraill i wella symudedd	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.	O fewn 3 blynedd

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Gweithio gyda thenantiaid sy'n byw mewn blociau cymunedol i ystyried projectau neu wasanaethau i sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu cadw'n lân.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus.	O fewn 6 mis
Trosedd a diogelwch		
Cynyddu'r wyladiwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Sefydlu gweithgareddau Gwarchod Cymdogaeth i gynyddu lefel gwyladiwriaeth yn y gymdogaeth ac felly cynyddu'r teimlad o ddiogelwch a grymuso yn erbyn trosedd, gan gynnwys nodi tenantiaid agored i niwed sydd wedi, neu a allai fod wedi, dioddef trosedd.	Gwella diogelwch cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.	O fewn 6 mis
Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuencid a'r Tim Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 12 mis
Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdagon da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tim Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Gweithio gyda'n gwasanaeth cynnal a chadw arfaethedig i weld a ellid treialu unrhyw welliannau neu fentrau creadigol yn yr ardal i leihau problemau swm rhwng fflatiau.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 3 blynedd



Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Cymunedau gweithgar		
Hyrwyddo Bancio Amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid.	Datblygu cysylltiadau cymunedol da. Darparu mwy o weithgareddau cymunedol Datblygu manau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant.	O fewn 6 mis
Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, sefydliadau a thenantiaid i ddatblygu dewislen o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardal, gan gynnwys sefydlu fforwm tenantiaid ieuencid ar gyfer yr ardal (gan dargedu pobl ifanc 16 i 25 oed). Adolygu gweithgareddau yn yr ardal i blant, gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol i weld sut y gallwn gefnogi hyn.	Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol.	O fewn 12 mis
Ymgynghori â thenantiaid i nodi pa wasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yr hoffent eu cyrchu. Creu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer preswylwyr sy'n byw yn yr ardal, gan gynnwys datblygu rhaglen gan ddefnyddio'r cyllid Budd Cymunedol o Holm View a datblygiad Brecon Court.	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Cynnal gwersyll hyfforddiant preswyl dwys ar gyflogaeth i denantiaid sy'n byw yn yr ardal, sy'n chwilio am gymorth gyda chyflogaeth	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant. Gwella iechyd a llesiant. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Adolygu'r gwasanaethau cynhwysiant digidol cyfredol sydd ar gael yn yr ardal a gweithio gyda thenantiaid i nodi'r cynnig digidol gorau ar gyfer yr ardal.	Cefnogi tenantiaid agored i niwed. Darparu gwasanaethau cynhwysiant digidol. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Darparu gwasanaethau cynghori ariannol.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda Gibby Green Fingers i roi cyhoeddusrwydd i'r ardd gymunedol yn yr ardal. Mae hyn i gynnwys arwyddion i gyfeirio pobl i'r lleoliad, arwyddion clir a hysbysfwrdd ar y safle fel y gall pobl adnabod y project yn hawdd. Hyrwyddo manylion cyswllt y bwrdd gwirfoddolwyr fel y gall gwirfoddolwyr newydd gofrestru.	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	WO fewn 6 mis

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a Gibby Green Fingers i archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu incwm er mwyn sicrhau cynaliadwydd y grŵp.	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 3 blynedd
Adolygu demograffeg cartrefi ar gyfer yr ardal i nodi tenantiaid agored i niwed ac adolygu sut y gellir darparu gwasanaethau cymorth priodol, gan gynnwys datblygu adnoddau cymunedol neu ddulliau cyd-gynhyrchu.	Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Gwella llesiant tenantiaid. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.	WO fewn 12 mis
Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu'r Clwb Beicio Tŷ Iolo wrth weithio tuag at wneud y project yn gynaliadwy	Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.	O fewn 3 blynedd
Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Preswylwyr Tŷ Cadog i'w cefnogi i ddarparu diwrnod ymgysylltu â'r gymuned i ymgysylltu â'r gymuned ehangach a denu aelodau newydd	Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Creu cardiau cyswllt Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt i swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth.	Gwella ymgysylltiad â'r gymuned. Gwella cysylltiadau cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Gweithio gyda'n Tîm Atgyweirio Ymatebol i redeg gwasanaethau adrodd am atgyweiriadau yn y gymuned a chael swyddogion yn mynychu sy'n gwneud atgyweiriadau ar adeg adrodd. Gweithio gydag Atgyweiriadau Ymatebol a Thenantiaid i adolygu sut y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth atgyweirio ymhellach i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a thenantiaid yn well.	Cynnal ansawdd cyffredinol y cartref. Sicrhau fod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i sofron uchel mewn modd amserol.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda Jehu ar Gynllun Budd Cymunedol Brecon Court, bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i denantiaid yn ogystal â phrojectau amgylcheddol i ddatblygu'r gymuned leol.	Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy.	O fewn 12 mis
Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol.	Darparu cyngor ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy.	O fewn 6 mis

Sut i gysylltu â ni:

Dros y ffôn:

01446 700111

Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

 @valehomes  Cartrefi'r Fro

Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

